



Ysgol Hafod Lon,
Parc Busnes Eryri,
Penrhyndeudraeth,
LL48 6LD
Pennaeth: Mrs Donna Roberts

01766772140

post@ysgolhafodlon.co.uk

Annwyl rieni,

Prynhawn da bawb.

Gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Ar hyn o bryd NID oes dyddiad nac unrhyw drafodaethau wedi bod gyda yr Awdurdod Addysg ynglyn a ail agor ysgolion. Unwaith y byddwn yn derbyn unrhyw newydd byddwn yn eich diweddarau gyda'r manylion.

Ar hyn o bryd rydym yn parhau gyda dysgu o bell ac mae'r cyngor dilynol yn parhau i sefyll-

Er bod llwyfanau Google Classroom, Hwb a pheynnau gwaith ar gael i chi, does dim disgwyl na rheidrwydd i chi cyflawni bob dim. Mae hi'n ddigon anodd i rhai ohonoch sy'n trio gweithio o gartref a chynnal y plant drwy'r dydd heb sôn am eu haddysgu, bwydo, sicrhau eu bod yn golchi dwylo ar ben bob dim arall!

Mae'n hawdd iawn teimlo'r straen ac yn fethiant pan ydych yn gweld yr hyn mae rhieni eraill yn ei wneud gyda'u plant ar y gwefannau cymdeithasol, ac er eu bod yn trio helpu drwy rannu syniadau, mae'n wir i ddweud fod sefyllfa bob teulu yn wahanol a gall hyn godi pryder i nifer ohonom.

Felly, plis treuliwch amser gyda'ch plant yn chwarae, lliwio, coginio, mynd am dro. Mae'n gyfnod anodd iawn i deuluoedd. Lles ac iechyd meddyliol a chorfforol ydi'r peth pwysicaf oll yn ystod y cyfnod hwn.

Mae rheoliadau mynd am dro ar gyfer plant gyda anghenion dysgu ychwaneol wedi newid ychydig ac os ydi eich plentyn angen mynd allan mwy nac unwaith y dydd neu os ydych angen teithio yn y car i leoliad agored megis y traeth yna gallwch wneud hyn. Cewch fwy o wybodaeth yma-

<https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-outbreak-faqs-what-you-can-and-cant-do/coronavirus-outbreak-faqs-what-you-can-and-cant-do>

Er bod yr ysgol wedi cau mae lechyd a Lles pob un disgybl yn bwysig i ni ac rydym yn awyddus i gael cyswllt rheolaidd gyda chi. Bydd yr athrawon yn cadw cyswllt wythnosol gyda chi i sicrhau darpariaeth a chefnogaeth fel bod angen. Oherwydd hyn gofynwn i chi fod yn amyneddgar gyda ein staff a gofynwn yn garedig plis wnewch chi dderbyn eu galwadau neu ymateb i'w ebyst o leiaf unwaith yr wythnos. Diolch yn fawr am eich cydweithrediad parod.

Cadwch yn saff.